# Cynllun Corfforaethol ar Dudalen

| Ein gweledigaeth | Un Cyngor yn Gweithio Gyda'i Gilydd i Wella Bywydau | | |
|---|---|---|---|
| **Ein hamcanion llesiant** | **Yn cefnogi economi cynaliadwy llwyddiannus** | **Helpu cymunedau a phobl i fod yn iachach ac yn fwy gwydn** | **Gwell defnydd o adnoddau** |
| **Ein hamcanion llesiant** | I gefnogi pobl leol wrth iddynt ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd i lwyddo.<br><br>Creu amodau ar gyfer twf a menter.<br><br>Creu canol trefi a chymunedau sy'n gwella ansawdd bywyd dinasyddion. | Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl dros y gefnogaeth maent yn ei derbyn drwy ddarparu mynediad cynnar i gyngor a gwybodaeth.<br><br>Lleihau galw drwy help cynnar wedi ei dargedu a rhaglenni ymyrraeth.<br><br>Datblygu cymunedau mwy heini, iach a gwydn drwy weithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector, cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol. | Sicrhau bod y cyngor yn gynaliadwy'n ariannol dros yr hirdymor.<br><br>Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau, a'r mynediad atynt, drwy ail-ddylunio ein systemau a'n prosesau.<br><br>Gweithio ar y cyd i wneud y mwyaf o asedau cyhoeddus.<br><br>Datblygu'r sgiliau a'r diwylliant sydd eu hangen er mwyn bodloni anghenion sefydliad sy'n newid. |
| **I gyflawni'r amcanion hyn, byddwn yn** | Ailddatblygu canol trefi ledled y fwrdeistref; gan gynnwys cynhyrchu Uwchgynllun ar gyfer Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr ac ailddatblygu Neuadd y Dref Maesteg gan ddarparu gwell cyfleusterau cymunedol gan gynnwys llyfrgell y dref, ardaloedd perfformio, cynnig gwell mynediad i ymwelwyr a chreu swyddi.<br><br>Gwella profiad ymwelwyr i roi hwb i dwristiaeth yn sgil Covid-19 trwy ddarparu rhaglenni Ffocws Buddsoddi Tref Porthcawl & Parc Rhanbarthol y Cymoedd.<br><br>Creu canol trefi gwell trwy wella eiddo.<br><br>Gwella gwytnwch busnes, cynorthwyo busnesau newydd a meithrin ffyrdd gwella o gaffael er mwyn helpu i roi hwb i'r economi sylfaenol.<br><br>Gwella sgiliau a chyflogadwyedd unigolion i gynyddu eu cyfleoedd swyddi a lleihau anweithgarwch economaidd.<br><br>Cynnal perfformiad da yng nghyfnod allweddol 4. Codi safonau llythrennedd mewn ysgolion cynradd.<br><br>Gwella canlyniadau ar gyfer dysgwyr chweched dosbarth ôl-16.<br><br>Hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. | Ehangu ystod o wasanaethau cymunedol integredig dros ddiwrnod estynedig.<br><br>Ehangu'r gwaith amlddisgyblaethol o fewn Rhwydweithiau Clwstwr Cymunedol.<br><br>Parhau â'r gostyngiad diogel o blant sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi i fyw gyda'u teuluoedd.<br><br>Galluogi grwpiau cymunedol a'r trydydd sector i fod â mwy o lais a rheolaeth dros asedau cymunedol.<br><br>Targedu defnydd o wasanaethau ymyrraeth gynnar i leihau'r galw am wasanaethau statudol.<br><br>Ailadeiladu cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden a diwylliannol drwy wella hygyrchedd, cael gwared â rhwystrau i gyfranogiad, a chreu cymunedau sy'n ystyriol o oed.<br><br>Gweithio gyda phartneriaid i gynnig ystod o opsiynau llety i atal pobl rhag dod yn ddigartref.<br><br>Dechrau defnyddio eiddo gwag unwaith eto, gan helpu i gynyddu argaeledd tai fforddiadwy sydd ar werth neu i'w rhentu.<br><br>Datblygu strategaeth iechyd meddwl a chynllun gweithredu gyda phartneriaid. | Buddsoddi £1.3 miliwn i osod technolegau syn arbed ynni a chostau er mwyn lleihau ein defnydd ynni ac allyriadau $CO_2$.<br><br>Rhagori ar dargedau ailgylchu cenedlaethol a chynyddu cyfleoedd i ailddefnyddio deunyddiau.<br><br>Gweithredu cynllun ynni ardal leol gynaliadwy i wella'r ôl troed carbon ar gyfer yr holl drigolion.<br><br>Cytuno ar fframwaith gaffael ranbarthol i ddarparu economïau o raddfa.<br><br>Hwyluso newid sefydliadol a diwylliannol i ddatblygu ein gweithlu i sicrhau eu bod yn cwrdd â heriau cyfredol ac yn y dyfodol, yn enwedig trwy fuddsoddi mewn rhaglen brentisiaeth gorfforaethol newydd<br><br>Gwaredu neu ryddhau adeiladau a thir gwag i gynhyrchu derbyniadau cyfalaf a lleihau ein hatebolrwydd rhent.<br><br>Gwneud y mwyaf o leoedd mewn ysgolion a darparu ein Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.<br><br>Adolygu gwariant cyfalaf a gweithredu'r gostyngiadau cyllidebol a gynlluniwyd.<br><br>Buddsoddi mewn technoleg i wella cysylltedd yn ein hysgolion. |